



Law Commission
Reforming the law
Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

Y Côt Dedfrydu: Adroddiad Crynodeb

**Comisiwn y Gyfraith Rhif 382 (Crynodeb)
21 Tachwedd 2018**

Cynnwys

| | |
|--|----------|
| PENNOD 1: CYFLWYNIAD A CHRYNODEB | 7 |
| Cyflwyniad | 7 |
| Problemau gyda chyfraith bresennol y weithdrefn ddeddfrydu | 8 |
| Y prosiect a'n cylch gorchwyl | 11 |
| Nodau'r prosiect | 11 |
| Hanes y prosiect | 13 |
| Gweithredu | 15 |
| Y Côt Dedfrydu | 17 |
| Y dyfodol | 18 |
| Argymhellion pellach | 19 |
| Cydnabyddiaeth | 20 |

Geirfa

Mesur

Cynnig am ddeddfwriaeth newydd neu gynnig i newid deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ac a gyflwynir i'w drafod yn y Senedd yw Mesur. Mae modd newid Mesur yn ystod ei broses drwy'r Senedd ac fe'i hadwaeinir fel Deddf pan gaiff Gydsyniad Brenhinol a dod yn ddeddf. Fodd bynnag, fel yr eglurir isod, (gweler **Cychwynisod**), ni weithredir darpariaeth mewn Deddf oni bai fod y Ddeddf wedi dod i rym.

Llechen lân

Dyfais dechnegol yw'r llechen lân lle gellir gwneud i ffwrdd â'r angen i gyfeirio at hen ddeddfwriaethau blaenorol. Gwna hyn trwy ymestyn darpariaethau sydd wedi'u cychwyn yn rhannol fel eu bod yn berthnasol i'r holl achosion, a diddymu'n llwyr ddarpariaethau a diddymwyd yn flaenorol ond a gadwyd yn rhannol. Y canlyniad yw bod y ddeddfwriaeth fwyaf gyfredol yn berthnasol i bob achos, waeth beth yw dyddiad y drosedd. Mae angen ychydig o eithriadau cyfyngedig i hyn i warchod hawliau sylfaenol troseddwr.

Cychwyn

Pan ymddeddfir deddfwriaeth sylfaenol gan y Senedd a chael Cydsyniad Brenhinol, nid yw, o reidrwydd, yn dod yn ddeddf yn syth. Cyn y gall deddfwriaeth fod yn effeithiol, rhaid dod â hi i rym. Cychwyn yw'r gair a ddefnyddir i ddisgrifio dod â darpariaeth ddeddfwriaethol i rym (hynny yw, o'r adeg y mae'n effeithiol) . Gweler **darpariaethau Cychwynisod** am fanylion ynglŷn â sut mae dod â darpariaeth i rym.

Darpariaethau cychwyn

Er mwyn gwneud ddeddfwriaeth yn effeithlon, rhaid dod â hi i rym (gweler **Cychwynuchod**). Os nad yw Deddf yn gwneud unrhyw ddarpariaeth i ddod i rym, daw i rym ar ddechrau'r diwrnod y bydd y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae hyn, fodd bynnag, yn anarferol a gwna'r rhan fwyaf o Ddeddfau ddarpariaeth benodol ar gyfer pan ddônt i rym - adwaenir y darpariaethau hyn fel darpariaethau cychwyn. Yn nodweddiadol datgan darpariaeth gychwyn y daw y ddeddfwriaeth i rym un ai ar ddyddiad penodol neu wedi i gyfnod penodol o amser ddod i ben, neu fel arall ar gyfarwyddyd gweinidog y llywodraeth.

Mesurau Cydgrynhoi

Yn aml mae'r gyfraith ar bwnc penodol wedi'i chynnwys mewn mwy nag un Ddeddf Seneddol. Mae Mesurau Cydgrynhoi, yn syml, yn ailddatgan y gyfraith gyfredol, gan ddod â'r darpariaethau sydd yn y gwahanol Deddfau i un darn o ddeddfwriaeth. Nid yw cydgrynhoi yn cael effaith ar y gyfraithsy'n bodoli er bod, o bryd i'w gilydd mewn Deddf o'r fath, fân gywiriadau a gwelliannau.

Y Gyfraith gyfredol

Y gyfraith mewn grym ar ddechrau amser cyhoeddi'r Adroddiad hwn.

Y Côt Dedfrydu Drafft

Y Côt Dedfrydu drafft yw testun yr Adroddiad Y Mesur Cydgrynhoi drafft fydd y Côt Dedfrydu unwaith y caiff ei ymddeddfu.

Grŵp o Rannau, Rhannau, Penodau

Rhennir Deddfwriaeth yn Grwpiau o Rannau, Rhannau a Phenodau Mae'r rhain yn caniatáu i adrannau sydd wedi'u cysylltu'n ôl themau gael eu casglu mewn un man, a rhoddant gymorth i bobl lywio'u ffordd trwyddynt.

Cwnsleriaid Seneddol

Cyfreithwyr arbennigol y llywodraeth yw Cwnsleriaid Seneddol sy'n gyfrifol am ddrafftio'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol.

Y weithdrefn seneddol

Mae'r weithdrefn seneddol yn rheoleiddio trafodion y Tŷ Cyffredin Mae'n cynnwys trafodion a reolir gan Deddfau Seneddol penodol, dyfarniadau a wneir gan y Siaradwr yn Nhŷ'r Cyffredin a chan y Pwyllgor Gweithdrefnau yn Nhŷ'r Arglwyddi, Gorchymynion Sefydlog a dealltwriaethau a chonfensiynau sefydledig nad ydynt wedi'u cyfundrefnu. Ceir gweithdrefn arbennig ar gyfer **Mesurau cydgrynhoi** (gweler uchod) sy'n caniatáu i'r Mesur fynd trwy'r Senedd yn gyflymach. Y rheswm dros hyn yw bod darpariaethau eisoes wedi bod yn destun dadleuon yn y ddau Dŷ Seneddol gan fod cydgrynhoad yn ailddatgan y gyfraith.

Newid Cyn-cydgrynhoi

Newidiadau a wneir i'r ddeddfwriaeth at ddibenion hwyluso gwaith cydgrynhoi'r gyfraith yw newidiadau cyn-cydgrynhoi, a dechreuir arnynt yn syth cyn ymddeddfu'r cydgrynhoad (felly bod yn effeithiol at ddibenion y cydgrynhoi'n unig). Newidiadau i ddeddfwriaeth y mae angen eu gwneud cyn cyflwyno'r Mesur cydgrynhoi i'r Senedd yw newidiadau cyn-cydgrynhoi. Yn gyffredinol cânt eu cyfyngu i gywiro mân gymgymeriadau a mireinio'r gyfraith yn y maes a gydgrynhoir.

Rhagolygol

Mae deddfwriaeth yn rhagolygol pan fo'n berthnasol i bethau pan fydd yn cychwyn neu wedi iddi gychwyn. Er enghraifft, bydd tramgwydd troseddol newydd yn rhagolygol yn yr ystyr ei fod yn berthnasol i droseddau a gyflawnir ar y dyddiad y daw i rym neu wedi'r dyddiad hwnnw'n unig.

Ôl-weithredol

Mae deddfwriaeth yn ôl-weithredol os yw'n cael effaith mewn perthynas â mater a gyfyd cyn iddi gael ei hymddeddfu neu ei gwneud. Yn gyffredinol defnyddir gwrthweithiol ac ôl-weithredol yn gyfnewidiol mewn perthynas â deddfwriaeth.

Y Côt Dedfrydu

Cydgrynhoad o'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ac sy'n rheoli'r weithdrefn deddfrydu yw'r Côt Dedfrydu a daw ynghyd â darpariaethau o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 a rhannau o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ymhlith eraill. Unwaith y caiff ei ymddeddfu ac y daw i rym, at y Côt Dedfrydu y byddir yn troi yn gyntaf am ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r weithdrefn deddfrydu.

Rheol llithriadau

Cyfeiria'r term rheol(au) llithriadau at bwerau'r llysoedd dan adran 155 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 ac adran 142 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 i newid dedfrydau a roddwyd yn flaenorol. Gall hyn fod i gywiro camgymeriad cyfraith neu i wneud newidiadau eraill i'r gorchymynion a roddwyd i droseddwr.

Darpariaethau trosiannol

Pan newidir y gyfraith gan y Senedd, mae'r darpariaethau trosiannol yn trefnu sut dylai'r gyfraith fod yn berthnasol i achosion sy'n pontio'r bwlch rhwng y ddwy gyfundrefn. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau bod y gwaith pontio rhwng dwy gyfundrefn gyfreithiol wahanol yn un llyfn, er enghraifft, gwneud yn glir a ymdrinnir ag achosion penodol dan yr hen gyfraith ynteu'r gyfraith newydd gan, o bosib, newid y naill neu'r llall. Mae'r mater ynghylch darpariaethau trosiannol wedi'i gysylltu'n agos â**chychwyn**(gweler uchod) a'r ffordd y rhoddir effaith i gyfreithiau newydd.

Pennod 1: Cyflwyniad a chrynodeb

CYFLWYNIAD

- 1.1 Un o swyddogaethau sylfaenol llys troseddol yw dedfrydu'r rhai hynny sydd wedi'u dyfarnu'n euog o dramgwydd troseddol neu wedi pledio'n euog iddo. Mae dibenion lluosog i ddedfrydu, yn eu plith - cosbi troseddwr, gwarchod y cyhoedd a swyddogaeth gyfathrebol bwysig i'r troseddwr ac i gymdeithas nad yw ymddygiad penodol yn dderbyniol. Yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2018, dyfarnwyd 1.19 miliwn troseddwr o dramgwyddau troseddol neu bu iddynt bledio'n euog iddynt ac ymdrinniwyd a hyn gan y llysoedd dedfrydu.¹Yn 2016-2017, daeth 3,708 cais i law y Llys Apêl (Adain Droseddol) am ganiatâd i apelio yn erbyn y ddedfryd, gyda phob un yn gofyn cael sylw un barnwr ar y papurau. ²Clywyd 1,183 o apeliadau o flaen y llys llawn.³
- 1.2 Mae pwysigrwydd cael system ddedfrydu sy'n rhedeg yn llyfn yn amlwg. Mae dedfrydu'n bwysig i ddiodefwyr, troseddwr a'r cyhoedd ehangach. Mae dedfryd amserol ac effeithlon yn cael effaith ar ffydd y cyhoedd yn y system. System lle mae oedi a chostau diangen yn ganlyniadau cyffredin gydag achosion eraill, tystion a diodefwyr yn gorfod cicio'u sodlau yn y llys ac mae'n dreth ar arian cyhoeddus prin.
- 1.3 Mae'r un mor bwysig fod y gyfraith, sy'n rheoli sut caiff dedfrydau eu rhoi, yn dryloyw a hygyrch. Mae'n sylfaenol i reol y gyfraith fod y gyfraith ac, yn arbennig felly, y gyfraith droseddol, yn ddigon clir i unigolyn allu deall canlyniadau posib eu gweithredoedd, a'r gosb y gallent ei chael. Mae'r gallu i adnabod a deall y gyfraith berthnasol yn hanfodol nid yn unig i gynnal ffydd y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol ond hefyd i sicrhau bod y diffynnydd yn gwybod pam fod y dedfryd a roddwyd arno wedi'i basio ac a oes ganddo unrhyw reswm posib dros apelio.
- 1.4 Yn syml, mae'n amhosib disgrifio'r gyfraith gyfredol sy'n rheoli'r weithdrefn ddedfrydu fel un glir, tryloyw, hygyrch neu gydlynol. Yn unol â hynny, dros y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi gwneud gwaith i unioni'r diffygion hyn yn y gyfraith. Rydym wedi llunio Mesur drafft yn cynnwys cyfraith y weithdrefn ddedfrydu ar ffurf syml, gydlynol a hygyrch. Pe câi ei ymddeddfu byddai'n arbed arian, lleihau oedi a dod ag eglurder i faes pwysig y gyfraith droseddol.
- 1.5 Mae'r bennod gyflwyniadol hon yn grynodeb o'r adroddiad a'r Côt Dedfrydu drafft. Mae'n cyflwyno'r problemau gyda'r gyfraith gyfredol a nododd rhanddeiliaid ac yn olrhain hanes y prosiect hyd at y pwynt hwn. Mae'n rhoi trosolwg i ni o'n casgliadau'r Mesur drafft a ddraftiwyd gan gwmsleriaid seneddol yn dilyn ein cyfarwyddiadau.

¹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Ystadegau Cyfiawnder Troseddol Chwarterol: Cymru a Lloegr, Ebrill 2017 i Fawrth 2018 (dros dro)* (16 Awst 2018), 4.

² Adroddiad Blynnyddol y Llys Apêl (Adain Droseddol) 2016-17 (21 Awst 2018) Atodiad F.

³Adroddiad Blynnyddol y Llys Apêl (Adain Droseddol) 2016-17 (21 Awst 2018) Atodiad D.

PROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH GYFREDOL O RAN Y WEITHDREFN DDEDFRYDU.

- 1.6 Gyda chymorth rhanddeiliaid, bu i ni nodi llu o broblemau gyda'r gyfraith gyfredol o ran y weithdrefn ddedfrydu. Mae modd rhannu'r problemau'n dri chategori:
- (1) Cymhlethdod y gyfraith;
 - (2) y modd y caiff deddfwriaeth dedfrydu ei newid; a'r
 - (3) amllder y caiff y deddfwriaeth ei newid.
- 1.7 Yn y paragraffau a ganlyn ceir crynodeb o bob problem a'r effaith y mae wedi'i chael ar y gyfraith gyfredol.

Cymhlethdod y gyfraith

- 1.8 Mae'r ddeddf sy'n rheoli'r weithdrefn ddedfrydu'n gymhleth a thechnegol iawn. Ar un adeg, nifer fechan o orchymynion dedfrydu oedd gan llys dedfrydu wrth law. Yn yr 21^{ain} ganrif, mae nifer enfawr o orchymynion sy'n ei gwneud yn bosib i'r llys roi dedfrydau o garchar a dedfrydau cymunedol. Yn ychwanegol, cafwyd toreth o orchymynion atodol - gorchymynion y gellir eu rhoi yn ychwanegol at orchymyn dedfrydu. Ymhlith y rhain mae gorchymynion ymddygiad a dargedir tuag at fathau penodol o ymddygiad, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu rhywiol a chamddefnyddio sylweddau, gorchymynion anghymwyso a gorchymynion ariannol wedi'u llunio i gosbi, rhoi iawndal i ddiodefwyr a gwneud iawn. Yn unol â hynny, mae swmp y deunydd deddfwriaethol y mae'n rhaid i lys dedfrydu ei ystyried yn fwy nag erioed o'r blaen.
- 1.9 Fel rhan o'n gwaith ymchwil yn y prosiect hwn, bu i ni restru'r gyfraith ddedfrydu mewn grym ar Awst 2015. Roedd ein rhestr dros 1300 o dudalennau o hyd ac yn cynnwys darpariaethau o Ddeddfau mor amrywiol â Deddf Ynadon Heddwch 1361, Deddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 a Deddf Cŵn Peryglus 1991. ⁴Ond nid yw hyd yn oed ein dogfen faith ni o restru'n cyfleu gwir gymhlethdod ac anhygyrchedd y gyfraith gyfredol. Roedd hyn oherwydd ei bod yn cynnwys y gyfraith gyfredol sy'n berthnasol i ddedfrydu troseddau diweddar yn unig. Mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau hŷn, a gyflawnwyd weithiau ddegawdau ynghynt, rhaid cyfeirio at y cyfundrefnau dedfrydu hanesyddol oedd yn eu lle yr adeg y cyflawnwyd y drosedd, yn ychwanegol at y gyfraith gyfredol. Mae'r ddeddfwriaeth hanesyddol yn aml yn dechnegol a chymhleth a'i heffaith a'i gweithrediad yn anodd i'w dehongli. Fel yr eglurir isod, weithiau nid yw hyd yn oed bodolaeth cyfreithiau o'r fath yn amlwg iawn.

Y modd y caiff deddfwriaeth dedfrydu ei newid

- 1.10 Ceir dulliau amrywiol a gwahanol o newid deddfwriaeth sylfaenol. Newidiwyd cyfreithiau dedfrydu trwy amryfal dulliau, heb unrhyw ddull gweithredu safonol amlwg. Weithiau gwneir newidiadau i'r gyfraith trwy newid ymdeddfiadau blaenorol, weithiau cânt eu cyflwyno yn eu hymddeddfiadau hunain ac, mewn rhai achosion,

⁴ Sentencing Law in England and Wales: Legislation Currently in Force (2015), ar gael fel pdf electronig llawn ac mewn rhannau unigol o <http://www.lawcom.gov.uk/project/sentencing-code/>.

cânt hyd yn oed eu cyflwyno trwy addasu effaith ymddeddiadau eraill (heb wneud unrhyw newidiadau gwirioneddol i eiriad y darpariaethau hynny).

- 1.11 Yn ogystal, nid oes cysondeb yn y modd y deuir â newidiadau i rym; er enghraifft, deuir â rhai newidiadau i rym yn ôl-weithredol, ond rhagolygol yn unig yw'r rhan fwyaf. Lle deuir â newidiadau i rym yn rhagolygol yn unig, nid oes un dull gweithredu safonol, er enghraifft trwy gyfeirio at y dyddiad dyfarnu. I'r gwrthwyneb, cychwynnir newidiadau trwy gyfeirio at nifer o wahanol ddigwyddiadau, yn cynnwys dyddiad y dyfarnu, dyddiad y drosedd a dyddiad dechrau'r achos.
- 1.12 Golyga'r arfer o newid y gyfraith yn y modd hwn fod gwahanol fersiynau o'r gyfraith yn berthnasol gan ddibynnu ar pa bryd y collfernir y troseddwr, pa bryd y cyflawnwyd y drosedd a pha bryd y dechreuir ar yr achos (ymhlith digwyddiadau eraill). Mae angen diogelu cyfundrefnau blaenorol yng nghyswllt achosion lle cafwyd digwyddiadau perthnasol cyn cychwyn darpariaethau newydd, a hynny fel bod modd diwallu ar gyfer achosion hŷn. Yn aml nid yw'n glir pan hyn yw'r achos ac, yn yr un modd, nid yw o hyd yn amlwg pa fersiwn o'r gyfraith sy'n berthnasol i drosedd benodol, Mae hyn yn creu anawsterau ychwanegol ar gyfer y llysoedd a'r ymarferwyr.
- 1.13 Y canlyniad yw y caiff y gyfraith ei newid mewn nifer o wahanol ffyrdd, daeth i rym trwy gyfeirio at nifer o wahanol bwyntiau mewn amser ac mae i'w gweld mewn nifer o wahanol Ddeddfau. Mae hyn oll yn creu anhawster diangen mewn dod o hyd i'r gyfraith, ei deall a'i gwneud yn berthnasol.

Amllder newidiadau

- 1.14 Yn ystod y 30 blynedd diwethaf newidiwyd yn barhaol y gyfraith sy'n rheoli'r weithdrefn ddeddfrydu, gydag o leiaf 14 darn mawr o ddeddfwriaeth sylfaenol yn 1991, 1993, 1997, 1998, 2000, 2002, 2003, 2005, 2007, 2008, 2009, 2012, 2014, 2015 a 2018.⁵Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi creu, newid a diddymu gorchymynion deddfrydu a'r weithdrefn sy'n ymwneud â deddfrydu troseddwr.
- 1.15 Wrth reswm, mae gan y Senedd yr hawl i newid y gyfraith mor aml ag y dymuna a rhaid i'r gyfraith allu wneud lle i newidiadau mynych i adlewyrchu anghenion cymdeithas sy'n newid a dymuniadau'r Senedd. Fodd bynnag, oherwydd yr amllder y caiff y cyfryw newidiadau hyn eu gwneud, gwaethygir y problemau a gaiff eu creu gan gymhlethdod y gyfraith a'r modd y caiff newidiadau eu gwneud. Po cyflymaf y gwneir y cyfryw newidiadau a swp cynyddol y cyfryw newidiadau, anos yw dod o hyd i'r gyfraith a'i deall.

Y canlyniad

- 1.16 Y canlyniad yw bod y gyfraith sy'n rheoli'r weithdrefn ddeddfrydu'n gymhleth, yn anodd dod o hyd iddi ac yn anodd ei deall, hyd yn oed i farnwyr ac ymarferwyr profiadol. Golyga hyn y gwneir camgymeriadau'n aml pan fo'r llysoedd yn rhoi deddfryd.

⁵ Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991, Deddf Cyfiawnder Troseddol 1993, Deddf Troseddau (Deddfrydau) 1997, Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Deddfrydu) 2000, Deddf Enillion Troseddau 2002, Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, Deddf Troseddu Cyfundrefol a'r Heddlu 2005, Deddf Troseddau Difrifol 2007, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, Deddf Cymorth Cyfreithiol, Deddfrydu a Chosbi Troseddwr 2012, Deddf Adsefydlu Troseddwr 2014, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 a Deddf Ymosodiadau ar Weithwyr Brys (Troseddau) 2018.

- 1.17 Dangosodd dadansoddiad a gynhaliwyd yn 2012 o 262 o achosion a ddewiswyd ar hap yn y Llys Apêl (Adain Droseddol) fod cymhlethdod y ddeddfwriaeth yn arwain at nifer anarferol o ddedfrydau sydd wedi'u pasio trwy gamgymeriad. O'r sampl o 262 o achosion, roedd 95 yn ymwneud â dedfrydau anghyfreithlon.⁶Nid dedfrydau a ystyrid yn amhriodol o ddifrifol yn unig oedd y rhain (h.y. y rhai hynny y casglodd y Llys Apêl (Adain Droseddol) y dylid eu gostwng oherwydd eu bod yn amlwg yn ormodol neu eu cynyddu oherwydd eu bod yn yn rhy drugarog), ond achosion lle roedd math y ddedfryd a roddwyd, yn syml, yn anghywir mewn cyfraith.
- 1.18 Mae enghraifft diweddar o hyn i'w gweld yn *R v Maxwell*,⁷ lle dywedodd yr Arglwydd Ustus Treacy, Cadeirydd y Cyngor Dedfrydu ar y pryd:

Roedd y rhesymau gwreiddiol dros apelio wedi'u cyfyngu i'r honiad syml fod y ddedfryd, at ei gilydd yn rhy hir, yn enwedig felly o ystyried y cyfanswm. Wedi i'r un Barnwr roi caniatâd i apelio am y rheswm hwnnw, nododd y cyfreithwyr yn Swyddfa'r Apeliadau Troseddol nifer fawr o faterion oedd wedi mynd o chwith isod a'u tynnu i sylw'r llys a'r partion. Treuliyd llawer o amser gan y Swyddfa ac yna gan aelodau unigol y llys yn ystyried y problemau a nodwyd. Bydd yr amser a gymerwyd yn llawer mwy na'r hyn a dreuliyd yn Llys y Goron yn y gwrandawriad gwreiddiol. Gellid fod wedi gwneud defnydd gwell o'r adnoddau hynny yn ymdrin ag achosion eraill.⁸

- 1.19 Nododd nad oedd problemau o'r fath yn annodweddiadol a'u bod yn codi o gymhlethdod deddfwriaeth ddedfrydu fodern, wedi'i gyfuno â'r pwysau a roddir ar lysoedd o ran adnoddau.
- 1.20 Dylid unioni'r cyfryw ddedfrydau anghyfreithlon. Lle gwelir camgymeriadau, gellid eu eu cywiro un ai trwy'r rheol llithriadau⁹neu drwy apelio i lys uwch. Golyga'r gwrandawriadau llys ychwanegol hyn gostau uwch i'r system gyfiawnder droseddol ac oedi i wrandawriadau eraill. Mewn rhai achosion, efallai na fyddir yn sylwi ar y camgymeriadau o gwbl ac, felly, ni chânt eu cywiro.
- 1.21 Fodd bynnag, nid yw'r problemau'n cynyddu'r risg o gamgymeriad yn unig. Mae'r anhawster sy'n wynebu'r rhai hynny y mae angen iddynt ddod o hyd i'r gyfraith, ei dehongli a'i gwneud yn berthnasol yn rhoi baich diangen ar y system gyfiawnder troseddol. Gall arwain at wrandawriadau dedfrydu'n cymryd amser maith diangen, wrth i ymarferwyr a barnwyr dreulio mwy o amser nag sydd raid yn adnabod ac yn deall y gyfraith sy'n berthnasol. Mae hyn yn achosi gormod o gost ag oedi mewn perthynas â

⁶ R Banks, *Banks on Sentence* (8fed argraffiad 2013), cyfrol 1, tud xii. Roedd y 262 achos hynny'n cynnwys pob apêl droseddol â rhif rhwng 1600 a 1999 yn 2012, ac eithrio "y rhai hynny heb eu cyhoeddi, y rhai hynny sy'n ymwneud [yn unig] â cholffarnu, achosion heb fod yn rhai cwnsler a'r rhai hynny oedd yng nghwrs achos ac ati."

⁷ [2017] EWCA Crim 1233.

⁸ [2017] EWCA Crim 1233 at [45].

⁹ Rhydd adran 155 Deddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 ac adran 142 Deddf Llysoedd Ynadon 1980 i Lys y Goron a llysoedd yr ynadon y pŵer i unioni camgymeriadau a gwneud mân newidiadau i ddedfrydau a roddir. Ar lafar adwaenir y pwerau hyn fel y "rheol llithriadau" ac yn Llys y Goron rhaid eu harfer o fewn 56 diwrnod i rhoi dedfryd.

gwrandawiadau dedfrydu ac mae hefyd yn cael effaith ganlyniadol ar wrandawiadau eraill.

Y PROSIECT A'N CYLCH GORCHWYL

- 1.22 Pan edrychir ar y prosiect yn erbyn cefndir o'r fath broblemau systemig, nid yw'n syndod ei fod wedi'i gefnogi o'r cychwyn cyntaf, a hynny yn y modd cryfaf posib. Cydnabuwyd pwysigrwydd symleiddio ac egluro cyfraith y weithdrefn ddedfrydu gan ffigyrau arweiniol yn cynnwys yr Arglwydd Brif Ystus, y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a phenaethiaid proffesiynau'r cyfreithwyr a bargyfreithwyr.
- 1.23 Mae prosiect y Côt Dedfrydu'n rhan o 12fed rhaglen Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith¹⁰Mae ein cylch gorchwyl fel y cytunodd y Gweinidog Cyfiawnder â nhw fel a ganlyn:

Ystyried cyfundrefnu'r gyfraith sy'n rheoli'r weithdrefn ddedfrydu, y deallir yw'r broses sy'n berthnasol o'r rheithfarn i ddiwedd y ddedfryd a roddwyd a llunio Côt gweithdrefn ddedfrydu, wedi'i ymgorffori mewn un Ddeddf gyda fframwaith clir a drafftio hygrych. Bydd Côt newydd o'r fath yn rhoi i'r llysoedd un pwynt cyfeirio, sy'n gallu diwallu newidiadau ac addasu i anghenion sy'n newid heb golli eglurder strwythurol.

Cadw mewn cof egwyddorion cyfraith dda: y dylai fod yn angenrheidiol, clir, cydlynol, effeithiol a hygrych. Yn fyr, gwneud deddfwriaeth sy'n gweithio'n dda i ddefnyddwyr heddiw ac yfory.

Sicrhau na ddylai'r Côt newydd gyfyngu ar gapasiti'r Senedd a'r Llywodraeth i wneud newidiadau mewn polisi dedfrydu. Yn benodol, nid yw'r cosbau sydd ar gael i'r llys yng nghyswllt trosedd o fewn cwrpas y prosiect hwn ac eithrio yn yr ystyr ei bod yn anochel ystyried rhai ohonynt i gyflawni nod ehangach un Côt cydlynol. Yn yr un modd, ni ddylai'r Côt Dedfrydu, yn gyffredinol, wrthdaro yn erbyn canllawiau dedfrydu a bydd gwaith ei ddrafftio'n gyson, ac ar y cyd, â'r gwaith a wneir gan y Cyngor Dedfrydu.

NODAU'R PROSIECT

- 1.24 Mae tri nod bras i broses y Côt Dedfrydu:
- (1) sicrhau fod y gyfraith sy'n ymwneud â'r weithdrefn ddedfrydu yn gwbl ddealladwy ac yn gweithredu mewn fframwaith clir.
 - (2) codi ffydd y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol; a
 - (3) sicrhau fod y system cyfiawnder troseddol yn gweithredu mor effeithlon â bo modd cyn belled ag y bo'n berthnasol i'r weithdrefn ddedfrydu.
- 1.25 O'r cychwyn cyntaf, yr hyn yr ydym wedi geisio'i wneud i gyflawni'r nodau hyn yw llunio un statud dedfrydu. Rydym wedi galw'r statud hwn yn GôdDedfrydu. Bydd y Côt Dedfrydu'n dod â'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ac sy'n rheoli'r weithdrefn ddedfrydu ynghyd mewn un ymddeddiad. Wrth wneud hyn, bydd hefyd yn sicrhau y

¹⁰ Twelfth Programme of Law Reform (2014) Comisiwn y Gyfraith Rhif 354.

bydd iaith y gyfraith yn gliriach, symlach ac yn fwy cyson. Ar y cyd â strwythur rhesymegol, bydd y newidiadau hyn yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, y farnwriaeth a'r ymarferwyr.

Fframwaith clir

- 1.26 Ar wahân i ddod â chyfraith y weithdrefn ddedfrydu i fod yn un ymddeddfiad, bydd y prosiect hefyd yn cyflwyno ffordd newydd o ymdrin â newidiadau i'r gyfraith, fydd yn symleiddio'r broses ddedfrydu'n sylweddol yn ymarferol. Ynghynt yn y bennod hon, bu i ni gyfeirio at y broblem o gychwyn newidiadau i'r gyfraith sy'n berthnasol yn rhagolygol yn unig, gan nodi y gellir bod raid wrth ddiogelu hen ddarpariaeth weithiau i sicrhau y byddir yn parhau i ddiwallu ar gyfer achosion hŷn. Bu i ni egluro sut yr oedd hyn yn gwneud y dasg o ddod o hyd i'r gyfraith a'i deall yn anos.
- 1.27 Yn unol â hyn, bydd y Côt Dedfrydu'n gwneud i ffwrdd â'r angen i gyfeirio at gyfraith hanesyddol a darpariaethau trosiannol¹¹ a gwneud y gyfraith gyfredol yn berthnasol i'r holl droseddwr y digwydd eu collfarnau wedi i'r Côt Dedfrydu ddod i rym (ar yr amod y bydd eithriadau cyfyngedig i barchu hawliau sylfaenol troseddwr).¹²Cyfeiriwn at y newid hwn fel y "llechen lân".Ni fydd raid i'r llysoedd mwyach gyfeirio at fersiynau hanesyddol o ddeddfwriaeth a dehongli darpariaethau trosiannol. Ar gyfer yr holl droseddwr a gollfarnwyd ar ôl cychwyn y Côt Dedfrydu bydd angen i'r llysoedd, yn rhinwedd y llechen lân, gyfeirio at y Côt Dedfrydu ei hun yn unig. Hyd yn oed pan fo eithriadau i'r llechen lân, bydd y Côt Dedfrydu'n ailadrodd y darpariaethau hanesyddol hynny yn y Côt ei hun, gan ei gwneud yn glir i ba achosion y maent yn berthnasol. Byddant yn osgoi'r angen i ddefnyddwyr gyfeirio at ddarpariaethau trosiannol cymhleth a'u nodi. Mae hyn yn mynd yn sylweddol groes i'r arfer cyfredol ac mae'n newid y credwn fydd yn cael effaith sylweddol.

Cyfraith sy'n hawdd ei deall ac yn glir

- 1.28 Am y tro cyntaf, bydd cyflwyno'r Côt Dedfrydu'n rhoi strwythur clir a chydlynol i'r gyfraith sy'n rheoli'r weithdrefn ddedfrydu, yn ogystal ag ailddatgan y gyfraith mewn modd mwy penodol a hygyrch. Bydd yn symleiddio tasg barnwr dedfrydu, gan ei gwneud yn haws dod o hyd i'w dyletswyddau a'u pwerau dedfrydu a'u defnyddio.
- 1.29 Newid pwysig arall a wneir yw moderneiddio'r gwaith drafftio. Mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli cyfraith y weithdrefn ddedfrydu yn hen ac yn defnyddio terminoleg sydd wedi dyddio. Yn ogystal, cyfeiria llawer o'r ddeddfwriaeth at "ef" a'r ffaith mai gwryw yw wrth gyfeirio at y troseddwrneu'r dioddefwr. Bydd y Côt Dedfrydu'n moderneiddio'r termau a ddefnyddir er mwyn eu gwneud yn fwy perthnasol a

¹¹ Lle ceir newid i ddeddfwriaeth, rhydd 'darpariaethau trosiannol' eglurder i achosion sy'n pontio'r bwll rhwng yr hen gyfraith a'r gyfraith newydd. Datganant p'un ai'r hen gyfraith ynteu'r gyfraith newydd sy'n berthnasol i'r cyfryw achosion, yn ogystal â darparu unrhyw addasiadau angenrheidiol. Fel arfer, mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynnwys mewn darpariaeth eilaidd ac yn aml nid ydynt i'w gweld yn amlwg. Am ragor o wybodaeth gweler D Greenberg, *Craies on Legislation* (11eg argraffiad 2017) paragraffau 10.1.26-10.1.28.

¹² Megis lle byddai gwneud y ddeddfwriaeth gyfredol yn berthnasol i'r troseddwr yn arwain at y troseddwr yn cael cosb fwy na'r gosb fwyaf oedd ar gael adeg y drosedd, neu'r ddedfryd leiaf un neu 'premiwm atgwmpwr' (darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r llys drin y troseddwr yn llymach os oes gan y troseddwr ddedfrydau blaenorol) sydd wedi dod i rym ers cyflawni'r drosedd. Trafodir hyn mewn mwy o fanylder yn 3.83 isod.

chyfarwydd i ddefnyddwyr deddfwriaeth yr 21^{ain} ganrif a chaiff ei ddrafftio mewn termau lle mae'r rhywedd yn niwtral.

- 1.30 Bydd y Côt hefyd yn mireinio'r gyfraith i roi mwy o gysondeb ac eglurder a byddir yn cywiro camgymeriadau ac unrhyw beth a gaiff ei hepgor o'r gyfraith gyfredol. Rydym wedi mabwysiadu sicrwydd fel ein hegwyddor arweiniol wrth ddrafftio'r Côt Dedfrydu ei hun. Ar brydiau, mae blaenoriaethu sicrwydd wedi arwain at ddrafftio rhai darpariaethau ar ffurf hwy na'r ddarpariaeth o le maent yn tarddu neu mae un ddarpariaeth wedi'i rhannu'n fwy nag un ddarpariaeth. Rydym o'r farn fod hyn yn angenrheidiol i wireddu nodau'r prosiect ac yn nodi nad yw hyd deddfwriaeth yn gymaint o broblem ag y byddai wedi bod yn flaenorol gan bod llawer mwy o edrych ar ddeddfwriaeth yn electronig na sydd o'i darllen fel copi caled.

Ffydd y cyhoedd yn y gyfraith

- 1.31 Caiff ffydd y cyhoedd ei niweidio pan fo penderfyniadau dedfrydu, yn ôl yr arfer, yn anghyfreithlon, yn rhy drugarog neu, fel arall, yn amhriodol oherwydd natur annealladwy'r gyfraith gyfredol. Byddai'r Côt Dedfrydu'n cynorthwyo i leihau'r digwyddiadau hyn ac, felly, i wella ffydd y cyhoedd yn y system.
- 1.32 Yn yr un modd, mae ffydd y cyhoedd yn gostwng pan fo'r broses ddedfrydu, a'r gyfraith sy'n berthnasol iddi, yn anhygyrch ac yn annealladwy. Fel y nododd Alison Saunders, y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar y pryd, adeg lansio'r prosiect:

I ddiodeffwr neu dyst gall proses y llys ymddangos yn anodd iawn ac yn aml iawn bydd yn hawdd i bobl ddigalonni ac iddynt beidio â bod yn rhan o'r achos gan eu bod yn poeni am hyd yr amser y gallai gymryd neu oherwydd nad ydynt yn deall y broses y maent ar fin mynd drwyddi.

Er mai un rhan o sefyll prawf yw dedfrydu, mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn gallu deall y broses. Mae'r Côt newydd hwn yn ystyried anghenion holl ddefnyddwyr y llys a bydd yn rhoi fframwaith clir ar gyfer pob rhan o'r weithdrefn ddedfrydu. Bydd hyn yn fodd i'r cyhoedd ddeall mwy am y broses ddedfrydu a, chyda gobaith, lleddfu rhai o'u pryderon.

Dylai cyflwyno'r un Côt Dedfrydu fynd ymhell i gynyddu eglurder a thryloywder, gan wella'r gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd a'u ffydd yn y broses ddedfrydu.

Gwella effeithlonrwydd

- 1.33 Bydd y Côt Dedfrydu'n gwneud y gyfraith sy'n rheoli'r weithdrefn ddedfrydu'n gliriach, yn ei gwneud yn haws canfod ffordd drwyddi ac yn symlach ei defnyddio. Bydd hyn yn gostwng y risg o gamgymeriad ac, felly, nifer yr apeliadau sydd eu hangen i gywiro'r cyfryw gamgymeriadau, ond bydd hefyd yn cynorthwyo i leihau'r amser sydd ei angen i ddedfrydu. Yn ei dro, bydd hyn yn rhyddhau adnoddau'r llys ar gyfer gwrandawriadau eraill ac yn cynorthwyo i leihau oedi sydd i'w weld ar hyn o bryd yn y system.
- 1.34 Arbediad o £256.05 miliwn dros ddeng mlynedd yw'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd o fudd ariannol net ymddeddfu'r Côt Dedfrydu.¹³

¹³Am ragor o fanylion, trowch at yr Asesiad o'r Effaith sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

HANES Y PROSIECT

- 1.35 Casgliad o'n prosiect ar y weithdrefn ddedfrydu yw'r adroddiad hwn. Fel y nodwyd uchod, dechreuodd y gwaith yn Ionawr 2015. Bu i ni gyfarfod â rhanddeiliaid i gasglu tystiolaeth o'r problemau gyda'r gyfraith gyfredol a mynd ati i lunio cynigion sylfaenol. Yn ystod y prosiect rydym wedi cynnal pedwar ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol:
- (1) Yr ymgynghoriad ynghylch y mater o drosglwyddo o'r gyfraith gyfredol i'r Côt Dedfrydu (a adwaenir hefyd fel papur materion y "llechen lân") a gynhaliwyd rhwng 1 Gorffennaf 2015 a 26 Awst 2015.¹⁴
 - (2) Yr ymgynghoriad ar "ddogfen y gyfraith gyfredol" (oedd yn gosod allan ein dealltwriaeth ni o gyfraith y weithdrefn ddedfrydu yng Nghymru a Lloegr) a gynhaliwyd rhwng 9 Hydref 2015 a 9 Ebrill 2016.¹⁵
 - (3) Y "prif" bapur ymgynghori ar y Côt Dedfrydu drafft a gynhaliwyd rhwng 27 Gorffennaf 2017 a 26 Ionawr 2018.¹⁶
 - (4) Yr ymgynghoriad pellach ar yr hyn sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn unig yn y Côt Dedfrydu drafft ac a gynhaliwyd rhwng 23 Mawrth 2018 a 27 Ebrill 2018:¹⁷
- 1.36 Yn ystod y cyfnodau ymgynghori, bu i ni gynnal digwyddiadau cyhoeddus a phreifat lle cyflwynwyd ein cynigion sylfaenol gennym a cheisiwyd barn y farnwriaeth, ymarferwyr, swyddogion proffesiynol cyfiawnder troseddol eraill a'r cyhoedd. Yn benodol felly, bu i ni siarad â thros 1400 o bobl yn ystod y "prif" gyfnod ymgynghori.¹⁸
- 1.37 Dadansoddwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar ôl pob ymgynghoriad, rhywbeth a lywiodd ein ffordd o lunio'r Côt Dedfrydu a'r ffordd yr argymhellwn y dylid ei weithredu. Trwy'r prosiect drwyddi draw, rydym wedi gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol sydd wedi bod yn gyfrifol am ddrafftio'r Côt Dedfrydu a'r cymalau newid cyn-cydgrynhoi.
- 1.38 Rydym wedi llunio dau adroddiad yn ystod oes y prosiect:
- (1) adroddiad ar bontio o'r gyfraith gyfredol i'r Côt Dedfrydu (papur y "llechen lân") (20 Mai 2016);¹⁹ac

¹⁴ Sentencing Procedure Issues Paper 1: Transition (2015), ar gael yn <http://www.lawcom.gov.uk/wpcontent/uploads/2015/06/Sentencing-Procedure-Issues-Paper-Transition-online.pdf>.

¹⁵ Sentencing Law in England and Wales: Legislation Currently in Force (2015), ar gael fel pdf electronig llawn ac mewn rhannau unigol o <http://www.lawcom.gov.uk/project/sentencing-code/>.

¹⁶ Papur Ymgynghori Rhif 232 Comisiwn y Gyfraith: The Sentencing Code (2017).

¹⁷ The Sentencing Code: Disposals relating to children and young persons (2018) Papur Ymgynghori Rhif 234 Comisiwn y Gyfraith

¹⁸ Am fwy o fanylion ar y broses ymgynghori â'r cyhoedd, gweler [paragraffau 2.XX] isod.

¹⁹ A New Sentencing Code for England and Wales (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 365.

(2) adroddiad interim ar "ddogfen y gyfraith gyfredol" (7 Hydref 2016).²⁰

1.39 Rydym bellach wedi llunio'r adroddiad terfynol hwn yn argymhell bod y llywodraeth yn ymddeddfu'r Côt Dedfrydu fel Mesur cydgrynhoi. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cynnwys:

(1) y Côt Dedfrydu: Adroddiad (Cyfrol 1);

(2) y Côt Dedfrydu: Atodiadau (Cyfrol 2);

(3) y Côt Dedfrydu: Deddfwriaeth Ddrafft (Cyfrol 3);

(4) y Côt Dedfrydu: Dadansoddiad ymgynghorol (Cyfrol 4);

GWEITHREDIAD

1.40 Yn ystod oes y prosiect, wynebwyd ni â phenderfyniad ynghylch y ffordd orau o gyflawni'r manteision y gallai Côt Dedfrydu eu cyflwyno. Yn bennaf, roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â'r dull a ddefnyddiwyd lle deuai'r Côt Dedfrydu'n gyfraith. Yn sgil y refferendwm ar adael yr Undeb Ewropeaidd ac etholiad cyffredinol ychydig iawn o amser seneddol a gafwyd ar gyfer Mesurau mawr sy'n gofyn am ddadl fanwl a maith yn y senedd. Yn unol â hynny, er mwyn i'r prosiect barhau, roedd rhaid i ni gael hyd i ddull gweithredu na fyddai'n rhoi baich ar y senedd o ran dadleuon maith ar adeg pan fo mwy o bwysau ar amser seneddol nag, o bosib, erioed o'r blaen.

1.41 Daethom i'r casgliad mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai trwy ddrafftio'r Côt Dedfrydu fel Mesur cydgrynhoi. Disgrifir y broses o grynhoi gan *Craies on Legislation* fel:

[Disodli'r] gyfraith gyfredol ar fater penodol gyda Deddf Newydd sy'n gwneud dim newid o sylwedd ond cyflwyno'r holl ddeunydd mewn strwythur newydd ac mewn iaith sydd yn fodern ac yn fewnol gyson.²¹

1.42 Mae Mesur cydgrynhoi yn cyfuno nifer o Ddeddfau Seneddol sydd eisoes yn bodoli ar yr un pwnc yn un Ddeddf er mwyn gwella eglurder a sicrwydd y gyfraith heb altro ei sylwedd na'i heffaith. Mae drafftio'r Côt Dedfrydu fel Mesur cydgrynhoi yn caniatáu iddo gymryd mantais o'r weithdrefn arbennig ar gyfer y cyfryw Fesurau. Ychydig iawn o amser y mae'r weithdrefn hon yn ei gymryd yn siambrau dadlau'r Tai Cyffredin, gyda'r gwaith craffu seneddol yn cael ei wneud yn hytrach gan Gyd-bwyllgor y ddau Dŷ.²² Mae'r diffyg craffu hwn yn gyfreithlon oherwydd gan fod cydgrynhoi yn ailymddeddfu cyfraith sydd eisoes mewn grym, mae'r senedd eisoes wedi dadlau sylwedd y darpariaethau.

²⁰ Sentencing Law in England and Wales: Legislation Currently in Force – Interim Report (2016) ar gael yn http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2016/10/Sentencing_Interim_Report_Oct-2016.pdf.

²¹ D Greenberg, *Craies on Legislation* (11eg argraffiad, 2017) paragraff 1.9.1.

²² Y Cyd-bwyllgor ar Fesurau Cydgrynhoi Am ragor o wybodaeth, gweler <http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/joint-select/consolidation-committee/> (ymwelwyd ag o ddiwethaf 1 Mehefin 2017); D Greenberg, *Craies on Legislation* (11eg argraffiad 2017) paragraffau 5.3.1-5.3.4; a Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales: A Consultation Paper (2015) Papur Ymgynghori Rhif 223 Comisiwn y Gyfraith, paragraffau 7.11-7.15.

- 1.43 Golyga'r weithdrefn hon bod cyfyngiadau ar faint y diwygiadau y gallai'r Côt Dedfrydu eu cyflawni.²³Ni fydd y Côt Dedfrydu'n cyfundrefnu'r gyfraith gyffredin sy'n ymwneud â dedfrydu nac ymddeddfu gwaith diwygio polisi yn yr ardal hon fel y bwriadwyd yn wreiddiol fel rhan o'r prosiect hwn. Mewn nifer gyfyngedig o achosion, lle aiff diwygiadau arfaethedig neu bosib y tu draw i'r hyn y mae modd ei gyflawni yn y prosiect hwn, rydym wedi gwneud argymhellion o ran diwygio'r gyfraith yn y dyfodol.
- 1.44 Fodd bynnag, nid yw'r Côt Dedfrydu'n *gydgrynhoad* ynddo'i hun o'r gyfraith ar ddedfrydu. Fel yr ydym eisoes wedi'i egluro, bydd yn mynd y tu draw i grynhoi ynddo'i hun trwy weithredu "llechen lân" deddfwriaeth hanesyddol, gan adlewyrchu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad trosiannol.²⁴Bydd hyn yn symleiddio'r broses ddedfrydu'n sylweddol yn ymarferol, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd a llai o gamgymeriadau.²⁵Ymhellach, fel y nodwyd, bydd y Côt Dedfrydu'n gwneud nifer o newidiadau mireinio er budd eglurder a sicrwydd. Er enghraifft, bydd yn gwella'r iaith a ddefnyddir trwy'r gyfraith drwyddi draw ac, am y tro cyntaf, yn creu strwythur cydlynol.
- 1.45 Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Côt Dedfrydu'n ei gwneud yn ofynnol cynnwys dwy ddarpariaeth baratoi mewn Mesur Cyhoeddus arferol a ddaw o flaen y prif gydgrynhoad: un i weithredu "llechen lân" cyfraith ddedfrydu hanesyddol; ac un arall i roi i'r Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i wneud nifer o newidiadau cyn-cydgrynhoi i'r gyfraith fel bod modd bwrw ymlaen gyda'r cydgrynhoi. Cyfyngir unrhyw newidiadau cydgrynhoi a wneir i'r gyfraith dan y cyfryw bwerau i fân newidiadau mireinio a thwtio sydd er budd cydgrynhoi'r gyfraith ddedfrydu. Mae'r cymalau hyn wedi'u drafftio fel Mesur annibynnol ond, gellid hefyd eu hymgorffori mewn unrhyw Fesur Cyhoeddus arall. Mae'n bosib y gellid eu cyflwyno trwy'r weithdrefn arbennig ar gyfer Mesurau Comisiwn y Gyfraith.²⁶
- 1.46 O'r herwydd, mae'r prosiect wedi llunio dau ddarn o ddeddfwriaeth: (1) y cymalau newid cyn-cydgrynhoi (a allai weithredu fel Mesur annibynnol neu fel rhan o Fesur cyfiawnder troseddol arall); a (2) y Côt Dedfrydu (yn cydgrynhoi cyfraith gyffredol y weithdrefn ddedfrydu).²⁷
- 1.47 Mae'n bwysig nodi na fydd na'r Côt Dedfrydu na'r cymalau newid cyn-cydgrynhoi yn cyflwyno unrhyw gyfraith o sylwedd na phenderfyniadau dedfrydu newydd ac ni fyddant yn cael effaith ar y dedfrydau y byddir yn eu rhoi am unrhyw drosedd. Ni fydd yn altro'r dedfrydau mwyaf sydd ar gael am drosedd nac ychwaith yn cynyddu cwmpas y darpariaethau dedfrydu lleiaf un. Y pwynt hollbwysig yw na fydd y Côt Dedfrydu'n torri disgresiwn barnwriaethol wrth ddedfrydu ac ni fydd yn disodli'r canllawiau dedfrydu nac yn altro neu'n cyfyngu ar waith y Cyngor Dedfrydu. Nid yw'n fwriad ac niragwelir y bydd gweithredu a defnyddio'r Côt Dedfrydu'n cael unrhyw effaith ar y carcharorion.

²³ Edrychir yn fanylach ar y broses gydgrynhoi a'r cyfyngiadau y mae'n ei chreu wrth newid effaith y gyfraith ym mharagraff 2.9 isod.

²⁴ A New Sentencing Code for England and Wales (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 365.

²⁵ Edrychir yn fanylach ar fanteision y llechen lân ym mharagraff 3.20 isod.

²⁶ Yn hyn o beth, gweler paragraff 12.8 isod.

²⁷ Gweler Pennod 12 yr Adroddiad hwn am drafodaeth ar y ffordd yr argymhellwn weithredu'r Côt Dedfrydu.

Y CÔD DEDFRYDU

Cynnwys Mesur y Côt Dedfrydu

1.48 Mae'r Côt Dedfrydu'n cynnwys 414 cymal a 27 Atodlen. Caiff ei dorri i lawr yn Rhannau sy'n dilyn cronoleg gwrandawriad dedfrydu, gyda darpariaethau wedi'u grwpio'n ôl thema, lle bo modd. Bwriad y strwythur a fabwysiadwyd yw cynorthwyo defnydd a dealltwriaeth, wrth leihau i'r eithaf ar y risg o gamgymeriad trwy hepgor neu ddryswch.

1.49 Trefnir y Côt Dedfrydu fel a ganlyn:

- (1) Y Grŵp cyntaf o Rannau
 - (a) Rhan 1 (darpariaethau cyflwyniadol a throsolwg)
- (2) Yr Ail Grŵp o Rannau (Darpariaethau sy'n berthnasol i lysoedd dedfrydu'n gyffredinol)
 - (a) Rhan 2 (Pwerau y mae modd eu hymarfer cyn dedfrydu, gan gynnwys gohirio dedfrydu a thraddodi a phwerau dileu)
 - (b) Rhan 3 (Gweithdrefn, yn cynnwys adroddiadau cyn-dedfrydu a gorchymynion honiadau dirmygus)
 - (c) Rhan 4 (Ymarfer disgrisiwn y llys, yn cynnwys dibenion dedfrydu a phennu difrifoldeb trosedd)
- (3) Trydydd Grŵp o Rannau (Penderfyniadau)
 - (a) Rhan 5 (Pŵer i roi rhyddhad diamod ac amodol)
 - (b) Rhan 6 (Gorchymynion sy'n ymwneud ag ymddygiad, yn cynnwys gorchymynion cyfeirio a gorchymynion gwneud iawn)
 - (c) Rhan 7 (Gorchymynion ariannol a gorchymynion sy'n ymwneud ag eiddo, yn cynnwys dirwyon, gorchymynion iawndal a gorchymynion fforffedau)
 - (d) Rhan 8 (Gwahardd, yn cynnwys gwahardd rhag gyrru a gorchymynion gwahardd yn ymwneud â chadw anifeiliaid)
 - (e) Rhan 9 (Dedfrydau cymunedol, yn cynnwys gorchymynion adsefydlu ieuencid a gorchymynion cymunedol)
 - (f) Rhan 10 (Dedfryd o garchar, yn cynnwys gorchymynion dedfryd wedi'i gohirio, carchariad, cadw a dedfrydau estynedig)
- (4) Y Pedwerydd Grŵp o Rannau (Pwerau pellach yn ymwneud â dedfrydu)
 - (a) Rhan 11 (Gorchymynion ymddygiad, yn cynnwys ymddygiad troseddol a gorchymynion atal niwed rhywiol)
- (5) Y Pumed Grŵp o Rannau (Darpariaeth amrywiol ac atodol)

- (a) Rhan 12 (Darpariaeth amrywiol ynghylch dedfrydu, yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i riant neu warcheidwad person dan 18 dalu dirwy neu orchymyn ariannol arall pan gaiff ei gollfarnu o drosedd)
- (b) Rhan 13 (Dehongli, yn cynnwys ystyr "dedfryd")
- (c) Rhan 14 (Darpariaeth atodol, yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau)

Cynnwys y Mesur Dedfrydu (Newidiadau Cyn-cydgrynhoi)

Rydym wedi nodi bod angen dau gymal i allu gweithredu'r Côd Dedfrydu fel Mesur cydgrynhoi. Mae modd un ai ymddeddfu'r rhain fel Mesur annibynnol neu fel rhan o Fesur cyfiawnder troseddol arall. Rydym wedi drafftio'r cymalau fel Mesur annibynnol i gynorthwyo'r gwaith cyflwyno a deall, er nad yw'n angenrheidiol iddynt gael eu hymddeddfu fel y cyfryw.

- 1.50 Mae pum cymal yn y Mesur, dim ond dau ohonynt sydd o sylwedd. Mae cymal 3-5 yn ymwneud â dehongli, pŵer i wneud rheoliadau a chychwyn, a byddai'r cyfan yn cael ei gyfuno gyda darpariaethau tebyg pe bai'r cymalau'n cael eu hymddeddfu fel rhan o Fesur cyfiawnder troseddol arall. Mae cymal 1 yn gweithredu'r "llechen lân", gan wneud i ffwrdd â'r angen i gyfeirio at haenau hanesyddol o ddeddfwriaeth nad ydynt yn angenrheidiol mwyach. Mae cymal 2 yn gwneud y newidiadau cyn-cydgrynhoi sy'n angenrheidiol i gael y cydgrynhoed, gan wneud newidiadau mireinio a chywiro camgymeriadau drafftio blaenorol.
- 1.51 Mae newidiadau cyn-cydgrynhoi yn gwbl annadleuol ac yn ddyfais safonol a ddefnyddir mewn Mesurau cydgrynhoi. Ni ellir gwneud dim newid o sylwedd i bolisiâu a chyfyngir y newidiadau i'r rheiny sy'n angenrheidiol i weithredu'r cydgrynhoi.

Y DYFODOL

- 1.52 Ynghynt yn y bennod hon, bu i ni nodi mai'r hyn oedd wedi arwain, yn rhannol, at y problemau cyfredol gyda chyfraith y weithdrefn ddedfrydu oedd amlder a natur y newidiadau a wnaed iddi. Mae gan y senedd yr hawl absoliwt i wneud cymaint o newidiadau o ba bynnag natur a ffurf ag y dymuna ac nid yw'n hadroddiad yn ceisio tansellio hynny mewn unrhyw ffordd.
- 1.53 Fodd bynnag, yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ceisio'i wneud yw dylanwadu ar y ffordd y caiff y cyfryw newidiadau eu gwneud. Caiff y Côt Dedfrydu ei ddrafftio fel dogfen "fyw" sy'n gallu newid a dyma yw ei bwriad. Yn wir, mae'n bwysig y caiff newidiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn ddedfrydu eu gwneud yn y dyfodol trwy newid y Côt Dedfrydu. Dylai'r gyfraith ddedfrydu barhau i gael ei gweld yn y Côt Dedfrydu ac nid mewn ymddeddfiadau ar wahân.
- 1.54 Fodd bynnag, argymhellwn wneud y cyfryw newidiadau mewn ffordd benodol er mwyn diogelu'r llu fanteision a ddaw yn sgil y Côt. Yn benodol felly, dylid arddangos ar wyneb y ddeddfwriaeth berthnasol yn y Côt Dedfrydu gwybodaeth allweddol sy'n ymwneud â pherthnasedd a chychwyn unrhyw newid i ddeddfwriaeth ddedfrydu yn

hytrach nag mewn darpariaeth aneglur yn y Côt neu mewn darn o ddeddfwriaeth eilaidd.²⁸

- 1.55 Bydd gweithredu fel hyn yn sicrhau y bydd eglurder, symleiddrwydd a thryloywder cyfraith y weithdrefn ddedfrydu a ddaw yn sgil y Côt Dedfrydu yn aros, yn ogystal â'r manteision ariannol cysylltiedig.

Argymhelliad 1.

- 1.56 Argymhellwn ymddeddfu Mesur y Côt Dedfrydu drafft a'r Mesur Dedfrydu drafft (Newidiadau Cyn-Cydgrynhoi).

ARGYMHELLION PELLACH

- 1.57 Y tu draw i argymhelliad craidd yr adroddiad hwn - ymddeddfu Mesur y Côt Dedfrydu drafft a'r Mesur Dedfrydu drafft (Newidiadau Cyn-Cydgrynhoi) - mae'r Adroddiad hwn hefyd yn gwneud nifer o argymhellion pellach i newid y gyfraith ddedfrydu.
- 1.58 Nid yw'r argymhellion pellach hyn am ddiwygio wedi'u hadlewyrchu yn y Mesurau drafft ac mae modd ymddeddfu a gweithredu'r ddau Fesur heb y diwygiadau a ddaw gyda nhw.
- 1.59 Y prif resymau dros beidio â gweithredu'r argymhellion pellach hyn yn y Mesurau drafft yw:
- (1) Byddai'r argymhellion yn arwain at newidiadau i'r cosbau sydd ar gael i'r llys ac maent, felly, y tu allan i gylch gorchwyl y prosiect hwn.
 - (2) Mae'r argymhellion ar gyfer y llywodraeth, iddi hi roi rhagor o ystyriaeth iddynt, gan y gellid bod gofyn rhoi ystyriaeth fanylach i effeithiau ymarferol neu effeithiau polisi'r Diwygiadau posib, ac efallai bod angen eu diwygio'n ehangach.
 - (3) Ni fyddai'r argymhellion yn addas ar gyfer newidiadau cyn-cydgrynhoi ac, felly, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd ar wahân. Mae hynny oherwydd y graddau eu bod yn newid o sylwedd yn y gyfraith neu oherwydd eu bod yn newid y gyfraith mewn ffordd nad yw'n cael effaith ar y cydgrynhoi.
- 1.60 Wrth reswm, nid yw hyn yn tynnu oddi ar rinweddau'r argymhellion hyn, gyda phob un ohonynt wedi'u llywio gan yr ymgynghoriad helaeth yr ydym wedi'i gynnal yn ystod y prosiect hwn. Credwn fod pob un ohonynt yn haeddu ystyriaeth ofalus y llywodraeth iddynt gan obeithio y bydd deddfwriaeth sylfaenol yn gweithred arnynt yn y dyfodol.

²⁸ Gweler Pennod XX yr Adroddiad hwn am drafodaeth ar y ffordd y bydd ymddeddfu'r Côt Dedfrydu'n creu'r manteision.

CYDNABYDDIAETH

- 1.61 Mae nifer o aelodau o staff yng Nghomisiwn y Gyfraith wedi gweithio ar y prosiect hwn yn ystod ei oes: Lyndon Harris (cyfreithiwr y tîm); Sebastian Walker (cynorthwy-ydd ymchwil); Paul Humpherson (cyfreithiwr y tîm); Harry O'Sullivan (cynorthwy-ydd ymchwil); Vincent Scully (cynorthwy-ydd ymchwil) a Katie Jones (cynorthwy-ydd drafftio); David Connolly (rheolwr y tîm); Jessica Uguccioni (rheolwr y tîm). Rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i aelodau o Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol sydd wedi bod yn gyfrifol am ddrafftio'r Mesur.